

A oes heddwch?

Bydd Cymru gyfan yn troi eu sylw tuag at Ynys Môn i ddathlu ein cyfoeth cenedlaethol mewn cwmni da a llon. Ond hyd yn oed yng nghanol y dathlu ni allwn ymddihatu o realiti'r boen sy'n difa'n gwlad. I filoedd o'n cyd-Gymry ffantasi fyddai medru ateb yn gadarnhaol i gri'r archdderwydd, "A oes heddwch?" Terfysg yw eu rhan a chysgod ofn sy'n cuddio'i bywydau.

Profiad haf 2017

Ar ddechrau'r haf hwn, wrth i bobl fynd o gwmpas eu bywydau beunyddiol gan feddl eu bod yn ddiogel, daeth angau a thrychineb a dychryn i'w rhan. Pobl yn cael eu difa gan greulondeb neu esgeulustod posib pobl eraill. Llofruddio yn Llundain. Dinistrio bywydau ym Manceinion. Cyflafan Tŵr Grenfell.

Llu o fywydau'n cael eu difa am byth a sylw'r byd yn cael ei hoelio ar y digwyddiadau ysgytwol rheiny – dros dro.

Ac yfory?...

Yfory fe fydd trychineb newydd, achos newydd i alaru....A'r sylw'n troi at yr erchylltra newydd ddaeth i'n rhan.

Profiad ar lawr gwlad

Ar lawr gwlad, bob dydd, mae bywydau miloedd ar filoedd yn cael eu sbwylio a'i difetha – nid ar raddfa fawr, nac ar raddfa fydd yn dal sylw'r cyfryngau. Mae penderfyniadau a dewisiadau pobl eraill, pobl na fyddan nhw byth yn eu cyfarfod wyneb yn wyneb yn effeithio'n ddyddiol ar eu bywyd beunyddiol.

Dacw'r nyrsys sy'n gorfod ceisio am gymorth elusennau i fwydo'u teuluoedd. Yn ôl y Trussle Trust mae traean o boblogaeth Prydain, un o wledydd cyfoethocaf y byd, llawer ohonynt mewn gwaith llawn amser, yn cael eu gorfodi i chwilio am gymorth brys gan fanciau bwyd.

Gwelwyd cynnydd o 6% yn niferoedd y rhai oedd yn ymweld â banciau bwyd yn 2016-2017.

Byw ar fudd-daliadau?

Ac yn y rhannau o Brydain lle mae'r cynllun budd-dâl yr "Universal Credit" newydd wedi dechrau cael ei weithredu mae wyth o bob deg o bobl sydd wedi ceisio cofrestru i'r drefn newydd yn medru colli eu hincwm am gyfnod o hyd at chwe wythnos. Fe wyddom am aelodau EBC sydd wedi eu heffeithio gan y toriadau. Yn yr ardaloedd lle mae'r trefniant newydd ar waith gwelwyd cynnydd o 16% o bobl yn troi at elusennau am gymorth.

Un bil annisgwyl, un taliad mwy na'r cyffredin – dyna'r cyfan sydd ei angen ar nifer gynyddol o deuluoedd i'w llorio, i'w symud o gadw eu pennau uwchlaw'r dŵr i suddo yn nhrobbwl dyled.

Mewn adroddiad yn y Western Mail honnir bod tua 200,000 o blant yng Nghymru yn byw o dan lefel tlodi. Ym mis Rhagfyr 2015 dywedodd 72% o boblogaeth Cymru, yn ôl ffigurau gan Oxfam, bod rhywbeth mawr o'i le mewn cymdeithas lle'r oedd gymaint o'i phoblogaeth yn dibynnu ar fanciau bwyd er mwyn byw.



"Felly, tawed y doeth ar y fath amser, canys amser drwg yw."

Amos 5:13

Byw ar gyflog

Do, cododd isafswm cyflog cenedlaethol ar 1af o Ebrill i £7.50 yr awr os ydych chi dros 25 mlwydd oed.

Ond hyd yn oed os ydych yn llwyddo i gael gwaith llawn amser ar y gyfradd hon fydd eich cyflog blynyddol, cyn treth, oddeutu £14,400. Y gwir yw bod mwy a mwy o bobl yn gweithio ar gytundebau pen agored heb ymrwymiad o du'r cyflogwr. I bobl sy'n gweithio dan

gytundebau o'r fath breuddwyd gwrach yw'r fath gyfoeth ar zero hours!

Gagendor

Ar yr un pryd gwelwyd adroddiadau yn y papurau newydd yn ddiweddar fod pennaeth un cwmni wedi ennill cyflog o dros £220 o filiynau dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r cwmni dan sylw wedi cytuno bod taliadau o'r fath yn amhriodol ac wedi addo na fydd eu pennaeth, ar ôl 2021, yn ennill mwy na £13 miliwn y flwyddyn. A dyna bennaeth Nwy Prydain yn ennill £3 miliwn y flwyddyn heblaw am daliadau perfformiad. Yn yr un flwyddyn colodd 4,000 o weithwyr y cwmni eu swyddi a bu'n rhaid i draean o'i gwsmeriaid grafu ceiniogau er mwyn talu am wresogi eu cartrefi.

I filoedd o bobl wyneb bir dewis syml. Cynhesu eu cartrefi neu gael pryd o fwyd.

Byd tra gwahanol yw amgylchiadau'r cyn-Ganghellor George Osborne sy'n ennill £13,000 am ddiwrnod o waith gan gwmni buddsoddi Blackrock a theuluoedd sy'n gweithio llawn amser i geisio cadw to uwch eu pennau.

A dyma amgylchiadau byw yn ein Cymru ni. A 'dyn ni ddim wedi dechrau sôn am dlodi ar draws y byd a phobl sy'n ennill cyflog o 75 ceiniog y dydd!

Taw piau hi?

Mae'n debyg mai'r ffordd rwyddaf i ymateb i'r fath anghysondebau fyddai i gau ein llygaid a'n clustiau. Yn wir, yn ôl cyngor y proffwyd Amos gwell fyddai i'r "doeth" yn ei ddydd fod yn dawel. Ond fel yr Apostol yn ddiweddarach oedd "yn gwybod beth yw ofn yr Arglwydd" safodd Amos gan herio'n eofn arweinwyr ei genhedlaeth ei hun.

"Ceisiwch ddaioni...fel y byddwch fyw ac y bydd yr Arglwydd, Duw'r Lluoedd, gyda chwi, fel yr ydych yn honni ei fod. Casewch ddrygioni, carwch ddaioni, gofalwch am farn yn y porth: efallai y trugarha'r Arglwydd, Duw'r Lluoedd, wrth weddill Israel." (Amos 5:13-15)

(l'w barhau)